Ysgol Penglais School

*Ffôn/*Tel: 01970 624811
*E-bost/*E-mail: admin@penglais.org.uk
*Gwefan/*Website: www.penglais.org.uk

Waunfawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3AW

Mehefin 2026

Annwyl ymgeisydd,

Diolch am ddangos diddordeb yn y swydd Cynorthwy-ydd Addysg Lefel 3 cyfnod penodedig llawn amser (am 1 flwyddyn) yn Ysgol Penglais. Fe fyddwch yn ymuno â'r ysgol mewn amser cyffrous wrth i ni fyw ein gweledigaeth yr ysgol.

'Mae Ysgol Penglais yn ysgol hapus, uchelgeisiol a llwyddiannus lle mae pob un yn cael ei barchu a'i werthfawrogi.' Rydym yn gweithio'n galed gyda staff, disgyblion, rhieni a'r corff llywodraethol i sicrhau fod Ysgol Penglais yn ffynnu i fod yr ysgol arbennig y mae'r gymuned yn ei haeddu. Rydym yn gweithio'n barhaus i gyrraedd y safonau uchaf o ran cyrhaeddiad disgyblion, ymddygiad a safon dysgu ac addysgu.

Mae gennym gorff o staff profiadol sydd yn gweithio'n galed tra'n llwyddo i greu naws cynorthwyol a chyfeillgar. Mae'r disgyblion eisiau llwyddo yn uchel ac eisiau cael eu herio a'u cefnogi i wneud hynny. Mae yna lawer o anghenion gwahanol yn yr ysgol ac mae'r adran gynhwysol yn gweithio'n galed ar draws yr ysgol i gefnogi'r disgyblion pan bo'r angen. Mae'r 6ed ddosbarth yn gryf gyda tua 230 o ddisgyblion ac yn cyrraedd safonau uchel iawn.

Wrth ymuno ag Ysgol Penglais, fe gewch eich cefnogi yn broffesiynol i gyrraedd rhagoriaeth yn eich swydd. Gallaf addo i chi brofiad heriol ond a fydd yn y pendraw yn brofiad gwerthfawr wrth i ni symud ymlaen i fod yn ysgol ragorol.

Mae'r wybodaeth yn y pecyn yn rhoi darlun o'r ysgol i chi. Pe dymunech fwy o wybodaeth, cysylltwch â Helena Clements ar hcl@penglais.org.uk neu ffoniwch 01970 624811.

Edrychaf ymlaen i dderbyn eich ffurflen gais.

Yn gywir,

M. A. Hughes.

Ms Mair Hughes
**Pennaeth**

# GWELEDIGAETH YSGOL PENGLAIS: Anelu am Ragoriaeth

Mae Ysgol Penglais yn un hapus, uchelgeisiol, amrywiaethol a llwyddiannus lle mae pob un yn cael ei barchu a'i werthfawrogi. Rydym yn gymuned gynhwysol gref, lle mae pawb yn gofalu am ei gilydd. Wrth ddatblygu ein sgiliau annibynnol a gweithio gyda staff, teuluoedd ac eraill yn y gymuned fe wnawn lwyddo a chyflawni ein gorau. Mae'r ysgol yn gymuned egnïol gyda myfyrwyr a staff yn cydweithio, yn dysgu, yn meddwl ac yn gweithio'n galed. Rydym yn galluogi ein disgyblion i wynebu heriau ac yn cydnabod fod hyn yn allweddol i'w datblygiad unigol. Wrth ddatblygu dewrder, hyder, gwytnwch, annibyniaeth a goddefgarwch bydd ein myfyrwyr yn dod yn ddinasyddion cyfrifol yn eu cymunedau, yng Nghymru ac yn y byd.

# GWERTHOEDD YSGOL PENGLAIS

**Bod yn barchus a charedig**

**Bod yn uchelgeisiol a gwydn**

**Datblygu annibyniaeth, hyder a chyfrifoldeb**

**Croesawu amrywiaeth a dathlu llwyddiannau**

**Bod yn ddinasyddion balch a gweithgar yn ein cymunedau**

**Cynorthwy-ydd Addysgu Lefel 3 Cyfnod Penodedig (am 1 flwyddyn) Gradd: 6 scp 7 - 10 £26,403 - £27,694 pro rata 32.5 awr yr wythnos, yn ystod y tymor**

Rydym am benodi Cynorthwyydd Addysgu Lefel 3 cyfnod penodedig llawn amser a fydd yn ymuno â thîm brwdfrydig ac ymroddedig sy'n gweithio yn ein hadran ADY gyda phlant ag amrywiaeth o anghenion dysgu ychwanegol. Bydd y swydd yn amrywio yn dibynnu ar anghenion y myfyrwyr ac anghenion yr Athro â Gofal.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn mwynhau gweithio mewn awyrgylch brysur. Bydd angen i'r person fod yn flaengar yn y rôl er mwyn sicrhau fod disgyblion yn gallu dilyn y cwricwlwm ac yn gwneud cynnydd da yn eu haddysg. Mae'r rôl yn un delfrydol ar gyfer unigolyn uchelgeisiol sydd gyda diddordeb gwirioneddol mewn cefnogi disgyblion i gyrraedd eu gwir botensial.

Mae hwn yn gyfle gwych i ymgeisydd uchelgeisiol gael chwarae rôl allweddol i gynyddu uchelgeisiau a llwyddiannau ein disgyblion, ac felly yn cyfrannu at siwrnai Ysgol Penglais i fod yn ysgol ragorol.

Mae gan Ysgol Penglais lawer i'w gynnig:

- ysgol sydd yn seiliedig ar waith ymchwil gyda pherthnasau da rhwng staff a disgyblion
- ymroddiad i ddatblygiad proffesiynol staff er mwyn cyrraedd rhagoriaeth
- agos i dref Prifysgol bywiog Aberystwyth
- wedi ei leoli ar arfordir bendigedig bae Ceredigion, ardal o hyfrydwch naturiol

Am fwy o fanylion, cysylltwch a Helena Clements (PA i'r Pennaeth) ar 01970 624811 neu drwy e-bost hcl@penglais.org.uk

Mae Ysgol Penglais yn ymrwymedig i ddiogelu ac annog budd a lles plant, pobl ifanc ac oedolion bregus, ac yn disgwyl i holl staff a gwirfoddolwyr rannu yr ymrwymiad hwn.
Bydd raid i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn barod i ymgeisio am DBS a'r archwiliadau eraill sydd yn addas ar gyfer y swydd.

Mae Ysgol Penglais yn gyflogwr sydd yn sicrhau cyfleoedd cyfartal.

**Dyddiad cau: 06/07/2026**
**Cyfweliad:** I'w gadarnhau

# Swydd Ddisgrifiad – Cynorthwy-ydd Addysgu Lefel 3

| | |
|---|---|
| Teitl y swydd | Cynorthwy-ydd Addysgu Lefel 3 |
| Graddfa Cyflog: | Lefel 3 Gradd: 6 scp 7 - 10 £25,584 - £26,835 pro rata |
| Oriau ac wythnosau: | 32.5 awr yr wythnos, yn ystod y tymor |
| Yn gyfrifol i: | Dirprwy CADI |

## Pwrpas Craidd:

Gweithio o dan arweiniad uwch aelodau o'r staff/staff addysgu ac o fewn system gytunedig o oruchwyliaeth; gweithredu rhaglenni gwaith cytunedig gydag unigolion / grwpiau, oddi mewn neu oddi allan i'r ystafell ddosbarth. Gallai hyn olygu'r rhai sy'n galw am wybodaeth fanwl ac arbenigol mewn rhai meysydd, a bydd yn golygu cynorthwyo'r athro neu'r athrawes gyda'r cylch cynllunio cyflawn, yn ogystal â rheolaeth staff a rheoli/paratoi adnoddau.
O bryd i'w gilydd hefyd, gall staff oruchwylio dosbarthiadau cyfan yn ystod absenoldeb byr-dymor athrawon. Bydd y prif bwyslais ar gynnal disgyblaeth dda a chadw'r disgyblion wrth eu gwaith.

| **Prif gyfrifoldebau** | **Prif dasgau** |
|---|---|
| Cefnogi disgyblion | • Goruchwylio a darparu cefnogaeth neilltuol i ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion arbennig, gan sicrhau eu bod yn ddiogel a bod ganddynt fynediad at weithgareddau dysgu.<br>• Defnyddio profiad/hyfforddiant/sgiliau arbenigol (cwricwlaidd/dysgu) i gefnogi disgyblion.<br>• Cynorthwyo gyda rheolaeth Cynlluniau Addysg/Ymddygiad Unigol a rhaglenni Gofal Personol.<br>• Sefydlu perthynas adeiladol gyda'r disgyblion, gan ryngweithio â hwy yn unol â'u hanghenion unigol.<br>• Sefydlu perthynas waith gynhyrchiol gyda'r disgyblion, gan weithredu fel patrwm ymddwyn a gosod disgwyliadau uchel.<br>• Hyrwyddo cynhwysiant a derbyniad i'r holl ddisgyblion<br>• Rhoi cefnogaeth gyson i'r disgyblion gan gydnabod ar yr un pryd eu hanghenion unigol, ac ymateb iddynt.<br>• Gosod disgwyliadau heriol sy'n gofyn llawer, a hyrwyddo hunan-werth ac annibyniaeth<br>• Herio a symbylu disgyblion, hyrwyddo ac atgyfnerthu hunan-werth.<br>• Annog disgyblion i ryngweithio ac i weithio ar y cyd gydag eraill, a chynnwys yr holl ddisgyblion yn y gweithgareddau<br>• Hyrwyddo annibyniaeth a defnyddio strategaethau i gydnabod a gwobrwyo cyflawniad yn deillio o hunanddibyniaeth<br>• Annog disgyblion i weithredu'n annibynnol, fel y bo'n briodol<br>• Rhoi adborth i ddisgyblion ynghylch cynnydd a chyflawniad |
| • Cefnogi'r Athro neu'r Athrawes | • Gweithio gyda'r athro neu'r athrawes i sefydlu amgylchedd dysgu priodol<br>• Gweithio gyda'r athro neu'r athrawes ar gynllunio gwersi, gwerthuso a diwygio gwersi/cynlluniau gwaith fel y bo'n briodol |

| | |
|---|---|
| | • Monitro a gwerthuso ymateb disgyblion i weithgareddau dysgu drwy arsylwi a chadw cofnod cynlluniedig o gyflawniad ar sail amcanion dysgu gosodedig<br>• Rhoi adborth gwrthrychol a chywir yn ôl y gofyn, ynghyd ag adroddiadau, i'r athro neu'r athrawes ynghylch cyflawniad, cynnydd a materion eraill sy'n ymwneud â'r disgyblion, gan sicrhau argaeledd y dystiolaeth briodol<br>• Bod yn gyfrifol am gadw cofnodion a'u diweddaru yn unol â'r hyn a gytunwyd gyda'r athro neu'r athrawes, gan gyfrannu tuag at adolygu systemau/cofnodion yn ôl y gofyn<br>• Ymgymryd â marcio gwaith y disgyblion a chadw cofnod cywir o gyflawniad/cynnydd<br>• Hyrwyddo gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol, ac ymddygiad da, ymhlith y disgyblion, gan ddelio ar unwaith gyda gwrthdaro ac unrhyw ddigwyddiadau, yn unol â'r polisi sefydledig, ac annog disgyblion i fod yn gyfrifol am eu hymddygiad eu hunain<br>• Cydlynu'n effeithiol a sensitif, o fewn eich swyddogaeth/cyfrifoldeb, gyda'r rhieni/gwarchodwyr yn unol â'r hyn a gytunwyd gyda'r athro neu'r athrawes, a chymryd rhan mewn sesiynau/cyfarfodydd adborth gyda'r rhieni/gwarchodwyr, neu'n unol â'r cyfarwyddyd<br>• Gweinyddu ac asesu profion arferol a goruchwylio arholiadau/profion<br>• Darparu cefnogaeth gyffredinol, yn glerigol/gweinyddol e.e. gweinyddu gwaith cwrs, cynhyrchu taflenni gwaith ar gyfer gweithgareddau cytunedig, ac ati |
| Cefnogi'r Cwricwlwm | • Cefnogi disgyblion i gael mynediad i'r cwricwlwm<br>• Gweithredu gweithgareddau dysgu/rhaglenni addysgu y cytunwyd arnynt, gan addasu'r gweithgareddau yn ôl ymateb/anghenion y disgyblion. Gall hyn gynnwys gwersi sgiliau cymunedol; byw'n iach; profiad gwaith; dysgu yn yr awyr agored a chelf fynegiannol. Gall gynnwys mynd â phlant allan i fusnesau/elusennau lleol neu fynd allan ar deithiau cerdded natur/garddio.<br>• Gweithredu strategaethau dysgu lleol a chenedlaethol e.e. llythrennedd, rhifedd, CA3, y blynyddoedd cynnar, a gwneud defnydd effeithiol o gyfleoedd a ddaw o weithgareddau dysgu eraill i gefnogi datblygiad sgiliau perthnasol<br>• Cefnogi'r defnydd o TGCh mewn gweithgareddau dysgu, gan ddatblygu hyfedredd disgyblion a'u hannibynniaeth fel defnyddwyr y dechnoleg<br>• Cynorthwyo'r disgyblion i gael mynediad at weithgareddau dysgu drwy gyfrwng cefnogaeth arbenigol<br>• Penderfynu ar yr angen am offer ac adnoddau cyffredinol ac arbenigol, eu paratoi, a'u cynnal a'u cadw |
| Cefnogi'r Ysgol | • Bod yn ymwybodol o bolisïau a threfniadaethau perthnasol, gan gydymffurfio â hwy, yn ymwneud ag amddiffyn plant, iechyd, diogelwch a sicrwydd, cyfrinachedd a gwarchod data, a chyflwyno adroddiad ar bob testun pryder i berson priodol |

| | |
|---|---|
| | • Bod yn ymwybodol o wahaniaethau a'u cefnogi, a sicrhau bod gan yr holl ddisgyblion fynediad cyfartal i'r cyfleoedd ar gyfer dysgu a datblygu<br>• Cyfrannu tuag at ethos/gwaith/amcanion cyffredinol yr ysgol<br>• Sefydlu perthynas adeiladol gyda phobl eraill gan gyfathrebu gydag asiantaethau/gweithwyr proffesiynol eraill, mewn cydweithrediad â'r athro neu'r athrawes, er mwyn cefnogi cyflawniad a chynnydd y disgyblion<br>• Mynychu cyfarfodydd rheolaidd a chymryd rhan ynddynt<br>• Cymryd rhan mewn hyfforddiant a gweithgareddau dysgu eraill yn ôl y gofyn<br>• Cydnabod eich cryfderau a'ch meysydd arbenigol eich hunan a defnyddio'r rhain i gynghori a chefnogi eraill<br>• Darparu arweiniad a goruchwyliaeth briodol a chynorthwyo gyda hyfforddiant a datblygiad staff fel y bo'n briodol<br>• Ymgymryd â goruchwylio cynlluniedig disgyblion mewn gweithgareddau dysgu yn ystod oriau tu allan i'r ysgol<br>• Goruchwylio disgyblion ar ymweliadau, gwibdeithiau, a gweithgareddau y tu allan i'r ysgol, yn ôl y gofyn |
| Arall | • Bod yn ymwybodol o, a chydymffurfio a pholisïau a gweithdrefnau mewn perthynas ag amddiffyn plant, iechyd, diogelwch a chyfrinachedd, gan hysbysu person priodol ynghylch unrhyw bryderon<br>• Bod yn ymwybodol o, a chefnogi gwahaniaeth a sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cael mynediad cyfartal i gyfleoedd dysgu a datblygu.<br>• Mynychu a chymryd rhan mewn cyfarfodydd fel bo angen.<br>• Datblygu perthynas effeithiol a chyfathrebu gydag eraill.<br>• Cymryd rhan mewn hyfforddiant a weithgareddau dysgu eraill a rheoli perfformiad fel bo'r angen<br>• Adnabod eich cryfderau a'ch meysydd arbenigol a defnyddio'r rhain i gynghori a chynorthwyo eraill<br>• Ymgymryd ag unrhyw dasg sydd yn gymesur gyda statws y gwaith o bryd i'w gilydd, fel y penodir gan y Pennaeth |

Nid yw'r disgrifiad swydd o angenrheidrwydd yn ddiffiniad llawn o'r swydd. Mi fydd yn cael ei adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn, a gall cael ei addasu ar unrhyw adeg ar ôl ymgynghoriad gyda'r person yn dal y swydd

## Manyleb Bersonol- Cynorthwy-ydd Addysgu Lefel 3

| | |
|---|---|
| Cymwysterau | • Sgiliau rhifedd/llythrennedd da<br>• CGC 3 (Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol – NVQ) Cynorthwywyr Addysgu neu gymhwyster neu brofiad tebyg<br>• Hyfforddiant yn y strategaethau perthnasol e.e. llythrennedd a/neu mewn maes neilltuol o'r cwricwlwm neu ddysgu e.e. dwyieithrwydd, iaith arwyddion, dyslecsia, TGCh, mathemateg, Saesneg, CACHE, ac ati.<br>• Hyfforddiant cymorth cyntaf priodol |

| | |
|---|---|
| Profiadau | • Gweithio gyda, neu ofalu am, blant o'r oed perthnasol<br>• Hyfforddiant yn y strategaethau dysgu perthnasol e.e. llythrennedd<br>• Hyfforddiant cymorth cyntaf/hyfforddiant briodol |
| Sgiliau | • Y gallu i ddefnyddio TGCh yn effeithiol i gefnogi'r dysgu<br>• Defnydd o offer eraill technoleg – fideo, llungopïwr.<br>• Gwybodaeth drylwyr o bolisïau/codau ymarfer perthnasol, ac ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth berthnasol.<br>• Gwybodaeth ddigonol o'r cwricwlwm cenedlaethol/cyfnod sylfaen a rhaglenni/strategaethau dysgu perthnasol eraill.<br>• Dealltwriaeth o egwyddorion datblygiad a phrosesau dysgu'r plentyn.<br>• Y gallu i hunanwerthuso anghenion dysgu ac ymdrechu i chwilio am gyfleoedd dysgu.<br>• Y gallu i ddod ymlaen yn dda gyda phlant ac oedolion<br>• Gweithio'n adeiladol a hyblyg yn rhan o dîm, deall cyfrifoldebau a swyddogaethau'r ystafell ddosbarth a'ch safle bersonol o fewn y swyddogaethau hynny |
| Rhinweddau | • Parodrwydd i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth broffesiynol drwy fynychu cyrsiau/cyfleoedd hyfforddi addas<br>• Agwedd hyblyg, amyneddgar ac yn gweithio'n galed fel rhan o dim<br>• Ymroddiad llwyr i ddiogelu plant a disgyblion<br>• Ymroddiad llwyr i gyfleoedd teg<br>• Presenoldeb a phrydlondeb rhagorol |
| Arall | • Ymroddiad i ethos ac amcanion yr ysgol a'r gymuned |

Mehefin 2026